Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Dyddiad: Mehefin 2019

## Arolwg Omnibws y Plant 2018: Rhyddau data pennawd cychwynnol

## Cyflwyniad


Mae Ymchwil Beaufort yn cynnal Arolwg Omnibws y Plant ddwywaith y flwyddyn, yn y gwanwyn a'r hydref. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymryd rhan yn yr Omnibws bob blwyddyn ers 2007. Mae ein cwestiynau arolwg yn canolbwyntio ar lefelau mynychu ac ymgyfranogi plant a phobl ifanc o ran celfyddydau Cymru.

Mae'r adroddiad yma'n crynhoi canlyniadau allweddol y set ddata gyfun ar gyfer 2018. Byddwn ni'n cyhoeddi adroddiad manwl yng Ngorffennaf 2019. Mae'r canlyniadau yn seiliedig ar 1,009 cyfweliad â sampl gynrychioliadol o blant a phobl ifanc ledled Cymru, yn yr oed 7-18. Roedd y gwaith maes wedi digwydd mewn dau gyfnod: Mawrth–Ebrill 2018 a Hydref-Tachwedd 2018.

# Canlyniadau allweddol

## Mynychu

- Yn 2018, roedd 89.3% o blant a phobl ifanc Cymru wedi mynychu digwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Dyma'r lefel fynychu uchaf rydym ni wedi'i chofnodi. Mae'n gynnydd o 2.8 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.




Sail: tua mil o blant a phobl ifanc yn yr oed 7-18


Mae lefelau mynychu[1] yn 2018 yn dangos:

- Mae rhagor o ferched (93.7%) na bechgyn (85.1%) yn parhau i fynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, sy'n cadw at duedd y saith mlynedd blaenorol; mae'r bwlch rhwng y ddau ryw wedi cynyddu i 8.6 pwynt canran, o'i gymharu â 6.3 pwynt canran yn 2017

- Megis yn 2016 a 2017, carnifalau/celfyddydau'r stryd (58.9%) a dramâu (47.7%) oedd y ddwy gelfyddyd gyda'r lefel fynychu uchaf yn 2018; opera o hyd yw'r gelfyddyd gyda'r lefel fynychu isaf - dim ond 1.2% o blant a phobl ifanc sy'n ei mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach.

- Mae plant a phobl ifanc yn y grwpiau cymdeithasol ABC1[2] (92.9%) yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach na'r rhai yn y grŵp C2DE (86.4%); mae hyn yn dilyn yr un duedd ag yn y saith mlynedd blaenorol

[1] Mae'r graff yn dangos data mynychu am y 9 celfyddyd sy'n cael eu cynnwys yn yr arolwg er 2010: dramâu, sioeau cerdd, opera, cyngherddau clasurol, cerddoriaeth fyw arall, dawns, orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft, darlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol eraill a charnifalau/celfyddydau'r stryd





Sail: tua mil o blant a phobl ifanc yn yr oed 7-18

[2] Rydym ni'n defnyddio graddau JICNARS wrth son am ddosbarth cymdeithasol (A, B, C, D neu E); swydd prif gynheiliad y teulu sy'n pennu dosbarth cymdeithasol y person ifanc

## Ymgyfranogi

- Yn 2018, roedd 87% o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach; mae hyn yn ostyngiad o 0.4 pwynt canran er 2017





Sail: tua mil o blant a phobl ifanc yn yr oed 7-18

Mae lefelau ymgyfranogi[3] yn 2018 yn dangos:

- Megis mynychu, mae rhagor o ferched (89.6%) na bechgyn (84.5%) yn cymryd rhan yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach; mae'r bwlch rhwng y ddau ryw wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 3.6 pwynt canran yn 2017 i 5.1 yn 2018

[3] Mae'r graff yn dangos data ymgyfranogi o 7 celfyddyd: drama, dawns, gweithgareddau cerddorol, ffilm, fideo a ffotograffiaeth, celf weledol a chrefft, y celfyddydau digidiol ac ysgrifennu creadigol

- Ymgyfranogi o gelf weledol a chrefft, unwaith y flwyddyn neu'n amlach, yw'r gweithgarwch  mwyaf poblogaidd, yna ysgrifennu creadigol (63.1%) ac wedyn gweithgareddau cerddorol (45.7%); ysgrifennu creadigol sydd wedi cael y cynnydd ymgyfranogi mwyaf o'r flwyddyn flaenorol, i fyny 0.9 pwynt canran; dawns yw'r un gyda'r lefelau isaf o ymgyfranogi (20.8%) sy'n ostyngiad o 1.2 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol




Sail: tua mil o blant a phobl ifanc yn yr oed 7-18

- Yn 2018, roedd gan grŵp ABC1 lefelau uwch (90.1%) o ymgyfranogi, o'i gymharu ag 84.5% ar gyfer grŵp C2DE; roedd gan C2DE ostyngiad ymgyfranogi o 2 bwynt canran o'r flwyddyn flaenorol, er bod y grŵp ABC1 wedi profi cynnydd o 1.6 pwynt canran

## Amlder

Rydym ni'n cynnwys cwestiynau yn Omnibws y Plant ddwywaith y flwyddyn - yn y gwanwyn a'r hydref. Byddwn ni'n cyhoeddi adroddiad manwl yng Ngorffennaf 2019.

## Termau a diffiniadau

**Mynychu**: profi'r celfyddydau yn aelod o'r gynulleidfa

**Y celfyddydau o ran mynychu**: dramâu, sioeau cerdd, opera, cyngherddau clasurol, cerddoriaeth fyw arall, dawns, orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft, darlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol eraill a charnifalau/celfyddydau'r stryd

**Ymgyfranogi:** cymryd rhan weithredol yn y celfyddydau - mynychu gweithdai, dosbarthiadau neu ymarferion

**Y celfyddydau o ran ymgyfranogi**: drama, dawns, gweithgareddau cerddorol, ffilm, fideo a ffotograffiaeth, celf weledol a chrefft, y celfyddydau digidiol ac ysgrifennu creadigol

**Plant a phobl ifanc**: rhai yn yr oed 7-18

## Rhagor o gwybodaeth

Os oes gennych sylwadau neu gwestiynau neu os hoffech chi fod ar ein rhestr o ddefnyddwyr rheolaidd, cysylltwch â'n tîm ymchwil: ymchwil@celf.cymru

Gwefan: www.celf.cymru

## Cysylltwch â ni

Tîm ymchwil a gwerthuso
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL
Ffôn: 02920 44 1375

## Y diweddariad nesaf

Gorffennaf 2019